OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 737

# Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019.

(2) Daw'r rheoliad hwn a rheoliad 8 i rym yn union cyn y diwrnod ymadael.

(3) Daw gweddill y Rheoliadau hyn i rym ar y diwrnod ymadael.

(4) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.